

“Gras rhagflaenol

“Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen, ac wedi gosod dy law drosof.”
(*adn. 5*)

Beth am ddarlenn Salm 139:1–6 ac yna myfyrio

Ddoe bûm yn adrodd am y tro y deuthum i sylweddoli bod bywyd pawb yn stori, ac fel y trodd fy nghynghori o fod yn orchwyl diflas i fod yn rhywbeth bywiog a chynhyrfus. Byddai pobl yn newid o flaen fy llygaid wrth iddyn nhw gael gafael ar y syniad fod eu bywydau yn stori. Dywedodd un person wrthyf: “Mae’r syniad yma yn fy nghyffroi cymaint, mae bron â’r llethu. Os wyf fi yn rhan o stori, yna does dim sy’n digwydd yn fy mywyd i’n amherthnasol.”

Yn gynharach, fe ddywedais fod Eugene Paterson yn diffinio cynghori fel “gwrando ar stori rhywun a chwilio am symudiad Duw”. Sylwch ar y geiriau *symudiad Duw*. Mae Eugene Paterson, fel y soniais, yn cymryd yn ganiataol bod Duw wrthi yn *gwneud* rhywbeth ar unrhyw un adeg. Dyma bwynt y byddaf yn aml yn ei gyflwyno wrth siarad gyda gweinidogion a chynghorwyr. Mae mwy nag un wedi ymateb i hyn a dweud mor galonogol yw hi i sylweddoli, wrth iddyn nhw eistedd i lawr gyda rhywun sy’n mynd trwy amser caled, bod y Meistr wedi mynd o’u blaenau.

Digwyddais sôn am y syniad yma mewn cynhadledd i weinidogion yn Singapore yn ddiweddar. Wedi hynny, fe ddaeth gweinidog o Tsieina ataf fi a dweud: “O hyn allan, fe fyddaf yn gweld fy ymweliadau ag ysbytai a sesiynau cynghori mewn goleuni newydd. Byddaf yn dweud wrthyf fy hun wrth gerdded i mewn i’r ystafell gynghori neu ward yr ysbyty: “Crist a gyfodwyd ac sy’n mynd o’ch blaen chi.” Fe ychwanegodd wedyn: “Mae’r syniad bod y Meistr wastad ar y blaen i mi yn ennyn cymaint o chwilfrydedd ynof fi, a phan fyddaf yn cyfarfod ei blant ef, cofiaf fy mod yn cerdded i mewn ar rywbeth sydd eisoes ar waith. Mae hyn wedi chwyldroi fy ngweinidogaeth.” Mae diwinyddion yn galw hyn yn “ras ragflaenol”. Mae gras *yno*, hyd yn oed cyn bod ei angen arnom.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Gen. 28:16–19;
Math. 28:16–20

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddaru Jacob ymateb i bresenoldeb Duw?
2. Beth yw amod yr addewid mae Iesu’n ei rhoi inni i fod gyda ni bob amser?

Gweddï O Dad, mor fendigedig yw deall bod dy ras di’n rhagflaenol a’i fod yno hyd yn oed cyn imi fod ag angen amdano. Helpa fi i ymddiried yng ngallu trawsnewidiol y gras hwnnw hyd yn oed pan fo tywyllwch yn ei guddio o’r golwg. Yn enw Iesu. Amen.